CASTELL-NEDD PORT TALBOT CVS NEATH PORT TALBOT

ADRODDIAD EFFAITH BLYNYDDOL

2024-2025

Gwneud Gwahaniaeth gwirioneddol



27 mlynedd o Gefnogi, Hyrwyddo a Datblygu'r Sector Gwirfoddol, Cymunedol a'r Trydydd Sector yn Ehangach yng Nghastell-nedd Port Talbot

Pwy ydym ni

Cyngor Gwirfoddol Sirol a Chwmni Elusennol a sefydlwyd i hyrwyddo, cefnogi a datblygu'r trydydd sector yng Nghastell-nedd Port Talbot yw Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot (GGC Castell-nedd Port Talbot).

Fel y sefydliad ymbarél ar gyfer y sector, rydym yn gweithio i gryfhau cymunedau a newid bywydau. Ein cenhadaeth yw cefnogi, hyrwyddo, datblygu cyfranogiad grwpiau lleol ac unigolion yn y sector gwirfoddol/cymunedol/trydydd sector yng Nghastell-nedd Port Talbot, hwyluso'r ddeialog a'r bartneriaeth rhwng y sector ei hun a'r sector a'i bartneriaid, a helpu i adeiladu cymunedau diogel a chydnerth lle mae trigolion eisiau byw, gweithio a chwarae.

Ein Heffaith ar draws Castell-nedd Port Talbot

Mae ein Hadroddiad Effaith Blynyddol yn tynnu sylw at y gwahaniaethau cadarnhaol rydym wedi'u gwneud i gymunedau ledled Castell-nedd Port Talbot yn ystod y flwyddyn 1af Ebrill 2024 i 31ain Mawrth 2025. Ni fyddem yn gallu gwneud hyn heb gefnogaeth ein harianwyr a'n partneriaid.

Mae GGC Castell-nedd Port Talbot yn aelod o Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CTSC), partneriaeth o sefydliadau cymorth ar gyfer y Trydydd Sector cyfan yng Nghymru, sy'n cynnwys 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol lleol a rhanbarthol a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn cefnogi Trydydd Sector bywiog Cymru drwy weithio yn unol â manylebau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau GGC Castell-nedd Port Talbot a manylion aelodaeth, ewch i www.nptcvs.wales

Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol @NPTCVS:

Rhif Elusen Gofrestredig: 1064450 • Cofrestrwyd yng Nghymru Rhif Cwmni:. 3341466

CYNNWYS

Gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr 4

Crynodeb o'r Flwyddyn 3

Gwirfoddoli 6 - 9

Llywodraethu Da 10 - 11

Cyllid Cynaliadwy 12 - 14

Ymgysylltu a Dylanwadu 15 - 17

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant 18 - 22

Gwybodaeth, Cyngor a Hyfforddiant 23 - 24

Yr hyn y mae'r rhai rydym wedi gweithio gyda nhw wedi'i ddweud 25

Ymddiriedolwyr a Gweinyddwyr yr Elusen 27

Cyfrifon 28 - 31

ER COF

Rydym yn cyflwyno'r adroddiad hwn er cof am y staff a'r gwirfoddolwyr ym mhob rhan o'r sector gwirfoddol a fu farw yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn eu cofio nhw a'r effaith a gawsant ac y maent yn parhau i'w chael. Cydymdeimlwn â'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u cydweithwyr.

GAN Y CADEIRYDD A'R CYFARWYDDWR



Dr Edward M Roberts
MBE DL CStJ FRCGP
Cadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr



Gaynor M Richards
MBE DL LLD (Anrh)
Cyfarwyddwr

Ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr, mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Effaith Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2024-2025. Mae'r adroddiad yn rhoi amlinelliad o'n cyflawniadau a'n perfformiad ariannol dros y flwyddyn adrodd. Yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol, cytunwyd y dylai'r sefydliad newid ei enw i Wasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r newid yn adlewyrchu'r gwaith a wneir gan y sefydliad yn well ac rydym yn falch o'r ymateb cadarnhaol y mae wedi'i gael.

Y llynedd, gwnaethom fyfyrio ar y cyflawniadau a'r heriau allweddol a wynebwyd gennym ar adeg o newid digynsail, thema sydd yr un mor berthnasol i'r adroddiad hwn. Mae newid gwleidyddol ar lefel leol, genedlaethol a geo-wleidyddol yn effeithio ar bob un ohonom. Mae penderfyniadau a gymerwyd gan y llywodraeth wedi effeithio ar grwpiau cymunedol, sefydliadau a'r trydydd sector yn ehangach, a gwnaethom gefnogi'r lobïo a gynyddodd lais y sector mewn ymateb i'r penderfyniadau hynny. Mae'r pwysau ar sefydliadau lleol yn ddifrifol ac, i rai, mae wedi cyrraedd trobwynt dirfodol. Rydym wedi gweithio drwy gydol y flwyddyn i helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anoddaf i gynnal eu cefnogaeth a'u darpariaeth gwasanaeth, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n cynrychiolwyr etholedig lleol i fynd i'r afael â'r materion sydd wedi'u codi gan y sector.

Mae ein rôl ni fel GGC Castell-nedd Port Talbot wrth hwyluso'r ddeialog a'r bartneriaeth rhwng y sector ei hun a'r sector a'i bartneriaid wedi bod yn bwysicach nag erioed wrth gefnogi, hyrwyddo a datblygu grwpiau lleol a chyflwyno gweithgarwch sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cyffredin. Rydym yn eich gwahodd i ddarllen yn yr adroddiad hwn enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd gennym drwy gydol 2024-2025.

Mae heriau anodd o'n blaenau. Fodd bynnag, mae profiadau'r gorffennol a'r rhai rydym yn eu profi nawr yn dangos bod modd cyflawni pethau da pan fyddwn yn canolbwyntio ar faint y gellir ei wneud gyda'r hyn sydd gennym. Er enghraifft, yn ein dathliad blynyddol o wirfoddoli, gwnaethom gydnabod gwirfoddolwyr unigol a grwpiau cymunedol sy'n ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gweithgareddau ieuenctid a chwaraeon. Mae pob stori yn unigryw, mae pob taith yn wahanol, ond yr hyn sydd gan bob un ohonynt yn gyffredin yw effaith ryfeddol rhoi. Mae hyn yn brawf byw bod ein cymunedau'n esblygu, yn tyfu'n gryfach ac yn dod o hyd i ffyrdd newydd o ddod at ei gilydd ac mae'n dweud wrthym pa mor ymwreiddedig a bywiog yw'r diwylliant cymunedol sy'n nodweddu ein hardal.

Fel Cadeirydd a Chyfarwyddwr, mae'n fraint i ni arwain sefydliad sy'n ymroddedig i'w genhadaeth. Ni allwn gyflawni ein gwaith heb ymdrech a chefnogaeth ar y cyd ein haelodau, gwirfoddolwyr, cyllidwyr a phartneriaid, yr ydym yn eu cydnabod ac yn diolch iddyn nhw, ynghyd â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig, am yr ymddiriedaeth sydd ganddynt yn GGC Castell-nedd Port Talbot i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

CRYNODEB O'R FLWYDDYN

GWIRFODDOLI

ADRAN 1

203 o unigolion wedi'u cefnogi i wirfoddoli.

97 o sefydliadau wedi'u cefnogi gydag arfer da gwirfoddoli.

Dros **150** o rolau gwirfoddoli wedi'u hyrwyddo.

CYLLID CYNALIADWY

ADRAN 3

£4,156,023.23 o gyllid wedi'i sicrhau gan grwpiau yn dilyn cyngor a chymorth.

£100,920.68 o gyllid wedi'i ddosbarthu drwy **6** chynllun grant.

229 o sefydliadau wedi'u cefnogi i gael gafael ar gyllid.

IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLESIANT

ADRAN 5

1,582 o apwyntiadau rhagnodi cymdeithasol wedi'u gwneud ar draws Clystyrau Afan, y Cymoedd Uchaf a Chastell-nedd.

402 o unigolion wedi cael cymorth llesiant a helpodd i hwyluso'r broses o'u rhyddhau o'r ysbyty yn amserol neu i'r claf aros yn annibynnol yn ei gartref ei hun.

LLYWODRAETHU DA

ADRAN 2

34 o grwpiau neu wasanaethau newydd wedi'u sefydlu, y mae 5 ohonynt wedi'u cefnogi i gofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO).

3 menter gymdeithasol newydd wedi'u sefydlu.

93 o sefydliadau wedi'u cefnogi i gryfhau eu trefniadau llywodraethu.

YMGYSYLLTU A DYLANWADU

ADRAN 4

25 o fforymau a rhwydweithiau trydydd sector wedi'u cefnogi, **425** o unigolion wedi'u mynychu.

145 o weithgorau/grwpiau cynllunio strategol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r trydydd sector.

Cynnydd o **22%** yn nifer yr aelodau yn ystod y flwyddyn.

GWYBODAETH, CYNGOR A HYFFORDDIANT

ADRAN 6

5,048 o ryngweithiadau ag unigolion a sefydliadau.

594 o sefydliadau wedi cael cyngor ac arweiniad uniongyrchol.

17 o gyrsiau hyfforddi wedi'u trefnu, **148** o gyfranogwyr wedi'u mynychu.

Gan ganolbwyntio ar barhad busnes, darparu gwasanaethau a chynaliadwyedd, gwnaethom gyflawni ein gweithgareddau craidd o dan bedair colofn strategol Cefnogi Trydydd Sector Cymru (CTSC): gwirfoddoli, llywodraethu da, cyllid cynaliadwy, ac ymgysylltu a dylanwadu. Buom yn gweithio gyda phartneriaid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i grwpiau cymunedol, sefydliadau ac unigolion.

GWIRFODDOLI

1

Gwnaethom barhau i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â sefydliadau a rheolwyr gwirfoddoli, gan roi cyngor ar arferion gorau ym maes gwirfoddoli ac arweiniad ar greu cyfleoedd gwirfoddoli deniadol i apelio at ystod amrywiol o wirfoddolwyr.

Helpodd ein gwaith allgymorth a'n gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i ysbrydoli pobl i roi cynnig ar wirfoddoli, gyda chymorth arbenigol un-i-un yn cael ei ddarparu gan ein Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'r cyfle gwirfoddoli perffaith iddyn nhw.

Astudiaeth Achos



Martin yn gwirfoddoli i Ymddiriedolaeth Eirlys

Yn dilyn cefnogaeth gan ein Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr, mae Martin wedi dechrau gwirfoddoli mewn tair rôl - fel trysorydd i elusen newydd sy'n hwyluso gwyliau a seibiannau i deuluoedd â phlant sydd ag anawsterau dysgu neu anableddau eraill, rôl yn rhedeg Clwb Garddio rheolaidd i elusen gymunedol sy'n cefnogi cynhwysiant, amrywiaeth a pherthyn i blant o bob gallu, ac fel ymddiriedolwr yn Pathfinders Cymru.

"Nododd Steven fy nghefndir a fy mhrofiad yn gyflym a helpodd fi i nodi sefydliadau a oedd naill ai â diddordebau tebyg i fy rhai i, neu a oedd yn chwilio am y sgiliau oedd gen i. Roedd hyn yn allweddol ac rwy'n ddiolchgar iawn." – Martin Strike (gwirfoddolwr).

GWIRFODDOLI

1

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom y canlynol:

- Cefnogi 203 o unigolion i wirfoddoli.
- Cefnogi 97 o sefydliadau i wella eu harferion da o ran gwirfoddoli.
- Hwyluso 5 cyfarfod Grŵp Cymorth i Gymheiriaid Rheolwyr Gwirfoddoli.
- Hyrwyddo dros 150 o rolau gwirfoddoli.
- Trefnu hyfforddiant DBS ar gyfer y Trydydd Sector a darparu hyfforddiant Rheoli Gwirfoddolwyr.
- Cynnal 13 o sgyrsiau â gwirfoddolwyr, mynychu 8 ffair recriwtio ac ystod eang o ddigwyddiadau cymunedol eraill i godi proffil gwirfoddoli.
- Dechrau menter newydd i ddarparu apwyntiadau gwirfoddoli allgymorth yng Nghanolfannau Gwaith Castell-nedd a Phort Talbot.
- Hebrwng Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg ar ymweliadau â grwpiau gwirfoddol lleol i ddathlu Wythnos Gwirfoddolwyr a Diwrnod Rhyngwladol Gwirfoddoli.
- Helpu i sicrhau bod mwy o rolau gwirfoddoli yn cael eu hysbysebu ar wefan Gwirfoddoli Cymru, o 35 i 93.

Cronfa Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot

Mae Cronfa Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot yn grymuso gwirfoddolwyr ifanc (14-25 oed) i gymryd rhan mewn panel grantiau dan arweiniad pobl ifanc, sy'n dyrannu cyllid i grwpiau lleol i greu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc. Caiff ceisiadau ar gyfer prosiectau eu gwerthuso ar sail eu potensial i wneud cyfraniad cadarnhaol at y saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chaiff ymgeiswyr eu hannog i ystyried y pum ffordd o weithio.

Drwy gydol y flwyddyn gwnaethom y canlynol:

- Cefnogi 8 person ifanc sy'n aelod o banel grantiau gwirfoddoli.
- Dosbarthu £5792.21 i 6 grŵp lleol.
- Creu 27 o gyfleoedd gwirfoddoli newydd i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Astudiaeth Achos

Derbyniwyd cyllid grant ieuenctid ar gyfer prosiect ar y cyd rhwng dau grŵp ieuenctid HOPE ac YOVO, sef Calm Minds. Defnyddiodd y gwirfoddolwyr ifanc y cyllid i greu bagiau o adnoddau a gwybodaeth y gallai pobl ifanc eu defnyddio i wella eu hiechyd a'u llesiant.







"Bydd y cyllid sy'n cael ei ddyfarnu yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant â phrofiad o fod mewn gofal."
Uned Hawliau Plant.

Prosiect Gwirfoddoli Rhanbarthol

Gwnaethom barhau i ymgysylltu'n weithredol â Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Thîm Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg, i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gwirfoddoli Ranbarthol. Nod ein hymdrechion ar y cyd oedd sefydlu dull cyson o wirfoddoli ar draws y rhanbarth, a thrwy hynny wella ansawdd ac effaith y profiad gwirfoddoli.

Dull Cenedlaethol o Gefnogi Gwirfoddoli

Gwnaethom weithio gyda phartneriaid ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o gyd-ddylunio dull cenedlaethol newydd o wirfoddoli yng Nghymru, gan gyfrannu at greu gweledigaeth unedig ar gyfer gwirfoddoli sy'n benodol i Gymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom gasglu a rhannu mewnwelediadau gan wirfoddolwyr a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr er mwyn helpu i lunio'r fframwaith ar gyfer ei gyflawni.



LLYWODRAETHU DA

2

Gwnaethom ddarparu gwybodaeth a chymorth i sefydliadau ddeall a chydymffurfio ag arferion llywodraethu da yn llawn. Gwnaethom gefnogi aelodau pwyllgorau, cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr i ddatblygu eu hyder, eu sgiliau a'u gwybodaeth i'w galluogi i gyflawni eu rôl a datblygu a chynnal safonau uchel o lywodraethu o fewn eu sefydliadau.

Trwy gydol y flwyddyn, mae:

- 34 o grwpiau neu wasanaethau newydd wedi'u sefydlu, y mae 5 ohonynt wedi'u cefnogi i gofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO).
- 3 menter gymdeithasol newydd wedi'u sefydlu.
- 93 o grwpiau wedi'u cefnogi i gryfhau eu trefniadau llywodraethu.
- 9 sefydliad wedi cael cymorth dwys i ddiweddaru a chryfhau eu trefniadau llywodraethu.
- 23 o fentrau cymdeithasol wedi cael cymorth llywodraethu.

"Rwyf mor falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn... diolch yn fawr i GGC am y gefnogaeth a'r cymorth. Fydden ni ddim yn bodoli hebddoch chi!"

Gardd Gymunedol Ysgol y Cymer

Ein Dull Cymdogaeth

"Mae'n rhyfeddol gwybod bod gennym ni sector cymunedol mor amrywiol a helaeth yng Nghastell-nedd. Un sy'n ffynnu diolch i'r gefnogaeth mae'n ei chael gan GGC Castell-nedd Port Talbot."

Dr. Deborah Burge-Jones, Cydweithrediad Clwstwr Lleol Castell-nedd

Gwnaeth Ein Dull Cymdogaeth, a ariannwyd gan Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, gefnogi trigolion a grwpiau cymunedol i ddylunio a darparu gwasanaethau a gweithgareddau lleol sy'n meithrin cysylltiadau cymdeithasol ac yn gwella llesiant cymunedol. Darparwyd cymorth llywodraethu dwys i sefydliadau newydd er mwyn helpu gwirfoddolwyr i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu buddiolwyr. Mae'r cymorth hwn wedi creu gwasanaethau newydd gan gynnwys grŵp chwarae newydd i rieni sydd wedi colli plant yn y gorffennol, côr cymunedol sy'n hyrwyddo llesiant a chynhwysiant, sesiynau gweithgarwch corfforol i'r rhai sy'n byw gyda chlefyd Parkinson a grŵp cymorth i gymheiriaid i rieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Uchafbwynt y flwyddyn o ran ein Dull Cymdogaeth oedd Diwrnod o Hwyl i'r Teulu yn ymwneud ag Iechyd a Llesiant a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â Chydweithrediad Clwstwr Lleol Castell-nedd. Cymerodd bron i 350 o drigolion lleol ran yn y digwyddiad, gan elwa ar amryw o weithgareddau a gwasanaethau a gynigiwyd i wella llythrennedd iechyd, a hyrwyddo iechyd a llesiant corfforol ac emosiynol.





Trigolion lleol yn cael gwybod am ystod gyfan o sefydliadau a gwasanaethau iechyd a llesiant.

Gwobr y Brenin am Wasanaeth Gwirfoddol

Gwobr y Brenin am Wasanaeth Gwirfoddol (KAVS) yw'r wobr uchaf a roddir i grwpiau gwirfoddoli lleol yn y DU. Mae gwobr KAVS, sy'n cyfateb i MBE, yn cael ei dyfarnu am oes.

Mae tri o'r pump sydd wedi derbyn y wobr fawreddog hon yng Nghymru yn gweithredu yng Nghastell-nedd Port Talbot. Cafodd y canlynol eu cydnabod am eu gwaith rhagorol:

Fy Nghwm Gwyrdd - sefydliad cymunedol yng Nghwm Tawe sy'n ymgysylltu ag ysgolion lleol, grwpiau ac unigolion er mwyn helpu i gadw Cwm Tawe yn lân ac yn wyrdd i bawb.

Grŵp Strôc Castell-nedd Port Talbot - sefydliad yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n ailadeiladu bywydau a llesiant meddyliol goroeswyr strôc, eu hanwyliaid a'u gofalwyr.

Cymorth Arennau Popham - elusen sy'n gweithio ledled Cymru i gefnogi'r rhai sydd â chlefyd yr arennau a'u teuluoedd a'u gofalwyr i fyw bywydau gwell drwy wella llesiant ariannol, corfforol ac emosiynol buddiolwyr yn ogystal â'u gwybodaeth am y clefyd.











CYLLID CYNALIADWY

3

Gwnaethom weithio gyda grwpiau a sefydliadau cymunedol i sicrhau cyllid ar gyfer gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gwnaethom hefyd barhau i weinyddu cyllid grant i'r sector ar ran partneriaid allweddol.

Uchafbwyntiau Ariannu:

- Sicrhawyd £4,156,023.23 o gyllid gan grwpiau yn dilyn cyngor a chymorth.
- Dosbarthwyd £100,920.68 o gyllid i 39 o sefydliadau drwy 6 chynllun grant.
- Cefnogwyd 229 o sefydliadau i gael gafael ar gyllid.
- Cynhaliwyd 5 digwyddiad Cwrdd â'r Cyllidwr gyda 56 o sefydliadau yn bresennol.



Pen Y Cymoedd

Gyda chyllid gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd, gwnaethom barhau i ddarparu cymorth datblygu dwys i sefydliadau yn ardal y gronfa i feithrin eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hyder, gan sicrhau y gallant gael mynediad llwyddiannus at gyllid a gweithio tuag at gyflawni cynaliadwyedd hirdymor.

Cafodd Coeden Bywyd, sefydliad therapi ceffylau sydd wedi'i leoli ym Mhontrhydyfen, £6,500 gan gronfa Pen Y Cymoedd i gynnig sesiynau mentora rheolaidd i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio – gan eu helpu i feithrin eu hyder, eu hunan-gred a'u hymdeimlad o bwrpas drwy wirfoddoli gyda cheffylau achub.

Coeden Bywyd - Pobl ifanc yn cael budd o therapi ceffylau ym Mhontrhydyfen.

CYLLID CYNALIADWY

3



Llwyddodd Hamdden Cymunedol Cwm Afan, yr elusen sy'n gweithio ochr yn ochr â Llandarcy Park Ltd i redeg Pwll Nofio Cwm Afan, i sicrhau £300,000 gan gronfa Pen Y Cymoedd i gefnogi costau rhedeg y pwll. Dywedodd un o'r ymddiriedolwr, Hayley Robinson, "Rydym wrth ein bodd, mae'r pwll yn cael cymaint o gefnogaeth gan drigolion lleol, ysgolion, clybiau a sefydliadau eraill. Mae'n gyfleuster hamdden hanfodol sydd nid yn unig yn hyrwyddo iechyd a llesiant ond hefyd yn darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth lleol."

Pwll y Cymer - Pwll Nofio Cwm Afan wedi'i gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cronfa Twf Trydydd Sector Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

Gwnaethom barhau i oruchwylio'r gwaith o weinyddu Cronfa Twf y Trydydd Sector gwerth £1 filiwn, fel rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Cyflawnodd y cyllid y canlynol:

27 o sefydliadau wedi derbyn cyllid grant.

7 cyfleuster cymunedol wedi'u gwella.

616 o ddigwyddiadau neu weithgareddau lleol wedi'u cynnal.

3 ased twristiaeth, diwylliant neu dreftadaeth wedi'u gwella.

384 o raglenni cyfranogol wedi'u cynnal.

332 o gyfleoedd gwirfoddoli wedi'u cefnogi.

582 o bobl wedi dilyn hyfforddiant.

15 o swyddi wedi'u creu.

28 o swyddi wedi'u diogelu.

£400k ychwanegol o gyllid wedi'i sicrhau.

1 fenter newydd wedi'i datblygu.

Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Ffynnon Oer (wedi'i darparu gan Nadara)

Gwnaethom ddosbarthu £64,884.84 i 32 o grwpiau gwirfoddol yn ardaloedd y gronfa yng Nghwm Nedd a Chwm Afan. Gwnaeth y gronfa gefnogi:

- Preswylwyr o bob oed i aros yn gorfforol weithgar drwy fynediad at sesiynau nofio, rownderi a chwarae agored rheolaidd yng Nghwm Afan, tennis bwrdd yn Resolfen, pêl-droed yng Nghroeserw a bowlio lawnt yn Resolfen a Chymer.
- Pobl hŷn i barhau i fod yn gymdeithasol weithgar drwy fynychu grwpiau a digwyddiadau lleol fel boreau coffi, bingo, crefftau a chrosio.
- Gwella adeiladau lleol ac asedau cymunedol trwy waith cyfalaf gan gynnwys rhandiroedd wedi'u hadfywio yn Abergarwed, lloriau newydd yn Canolfan Deulu Blociau Adeiladu a datblygiad newydd yn Amgueddfa Glowyr De Cymru.
- Achubiaeth i fanciau bwyd lleol a mannau cynnes, gan sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn cael eu cefnogi gyda chyflenwadau bwyd drwy gydol gaeaf 2024.





Aelodau o Glwb Tennis Bwrdd Cam Gears

Cynllun Grantiau Bach Iechyd a Llesiant

Ar ran Cydweithredfeydd Clwstwr Lleol Afan, Nedd a'r Cymoedd Uchaf, gwnaethom ddosbarthu £30,000 i 7 sefydliad i ddatblygu gweithgareddau cymunedol am ddim sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant. Roedd prosiectau llwyddiannus yn cynnwys gweithgareddau i fynd i'r afael ag unigrwydd, cymorth iechyd meddwl, rhaglenni bwyta'n iach, ynghyd â chymorth ymarferol ac emosiynol i unigolion agored i niwed.

YMGYSYLLTU A DYLANWADU

4

Gwnaethom hwyluso'r ddeialog a'r bartneriaeth rhwng y sector ei hun a'r sector a'i bartneriaid drwy ein Fforymau Trydydd Sector sy'n rhoi cyfle i'r sector ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau a darparu strwythur ar gyfer ethol cynrychiolwyr i wahanol grwpiau cynllunio.

Gwnaethom ymgysylltu â 145 o bartneriaethau, fforymau a rhwydweithiau ar lefel strategol a gweithredol i ddylanwadu ar bolisïau, strategaethau, cynllunio, penderfyniadau a gwasanaethau a ddarperir sy'n effeithio ar y trydydd sector. Roedd hyn yn cynnwys Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd Rhanbarthol, Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, Cydweithredfeydd Clwstwr Gofal Sylfaenol Lleol, Partneriaeth Economaidd Leol Castell-nedd Port Talbot, Grŵp Arweinyddiaeth Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot, Partneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi a Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ymgyngoriadau

Gwnaethom ymateb i amrywiaeth o ymgyngoriadau gan gynnwys:

- Cynnig Cyllideb Ddrafft Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant 2024-2030
- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector
- Ymgynghoriad ar God Llywodraethu Elusennau
- Ymgynghoriad ar Gynllun yr Heddlu a Throseddu

Fframwaith Gwasanaethau Trydydd Sector Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Gwnaethom barhau i gefnogi Ailgomisiynu Gwasanaethau Trydydd Sector y Bwrdd Iechyd drwy wneud y canlynol:

- Broceru cyfleoedd i'r trydydd sector gydweithio ar y cyfleoedd tendro oedd ar gael.
- Ymgysylltu â'r sector ynghylch ei brofiad o'r broses ailgomisiynu a drafftio papur a ddefnyddiwyd i lywio proses gomisiynu'r Bwrdd Iechyd yn y dyfodol.
- Casglu adborth gan y sector gwirfoddol ar ran y Bwrdd Iechyd ar gontract newydd a gynigiwyd i ddisodli Telerau ac Amodau GIG Cymru.

Costau Byw a Thlodi

Yn dilyn gweithdy gyda'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a'r mewnwelediadau a rannwyd ganddo o'i waith mewn ysgolion, gwnaethom weithio gyda'r Bartneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi i ailffocysu ei hymdrechion unwaith eto ar fynd i'r afael â thlodi plant. Gwnaethom hefyd barhau i gasglu tystiolaeth ar effaith yr argyfwng costau byw a chefnogi sefydliadau sy'n gweithio gydag unigolion a theuluoedd sy'n profi caledi ariannol.

Tata Steel

Mewn ymateb i'r cyhoeddiad am golli swyddi Tata Steel, gwnaethom gefnogi partneriaid i asesu anghenion emosiynol a llesiant y rhai yr effeithiwyd arnynt. Gwnaethom gwblhau adolygiad capasiti o sefydliadau trydydd sector, a lywiodd achos busnes dros adnoddau ychwanegol. Gwnaethom gydlynu presenoldeb rheolaidd y trydydd sector yng Nghanolfan Gymorth Aberafan, cefnogi ffeiriau swyddi lleol a dechrau gweithio gyda phartneriaid ar Asesiad Effaith Iechyd Cymunedol i lywio gwaith cynllunio ataliol hirdymor.

Y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth

Gwnaethom barhau i ddwyn ynghyd ystod o grwpiau a sefydliadau gwirfoddol sy'n amddiffyn ac yn hyrwyddo'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gweithiodd Fforwm Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth y Trydydd Sector yn agos gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Phrosiect Treftadaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot i drefnu cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau a oedd yn dathlu Castell-nedd Port Talbot fel Lle Treftadaeth.







Ffair Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth - Gwirfoddolwyr yn arddangos eu sefydliad mewn ffair leol.

Rhwydwaith Cymunedol Cwm Afan Uchaf

Gwnaethom gefnogi datblygiad Rhwydwaith Cymunedol Cwm Afan Uchaf, mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol lleol a Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Rhwydwaith yn rhoi cyfle i sefydliadau gwirfoddol gydweithio â phartneriaid allweddol a mynd i'r afael â meysydd gwaith blaenoriaeth cyffredin. Gan ganolbwyntio ar ddull seiliedig ar le o ddatblygu cymunedol, nod Rhwydwaith Cymunedol Dyffryn Afan Uchaf yw ategu cryfderau, sgiliau a phrofiad y gymuned leol a chyd-ddylunio atebion sy'n ymateb i anghenion, traddodiadau a dyheadau'r gymuned.

Ymgysylltu ac Allgymorth i Gymunedau Amrywiol

Trefnodd ein rhaglen Allgymorth i Gymunedau Amrywiol drafodaethau cymunedol ar anghenion iechyd mewn poblogaethau amrywiol a chreu mannau diogel i bobl o wahanol gefndiroedd ddod at ei gilydd. Trwy gydol y flwyddyn gwnaethom y canlynol:

- Cefnogi mwy na 600 o unigolion trwy 49 o sesiynau Chai and Chat.
- Cyflwyno Cwrs Sgiliau Bwyd a Maeth achrededig Lefel 1 sy'n cefnogi pobl i wneud dewisiadau bwyd iach a datblygu eu dealltwriaeth o fanteision maeth da i iechyd.
- Cefnogi unigolion i gael mynediad at gyrsiau a sesiynau blasu yn y colegau lleol.
- Trefnu ystod o weithgareddau llesiant i unigolion a theuluoedd yn seiliedig ar eu hadborth.
- Darparu cymorth pwrpasol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghastell-nedd Port Talbot drwy fynd i'r afael â'u hanghenion ymarferol ac emosiynol.
- Hwyluso Diwrnod Cymunedol gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Emma Wools, i helpu i sicrhau bod aelodau amrywiol o'r gymuned yn cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Heddlu a Throseddu De Cymru.
- Gwneud cais llwyddiannus am gyllid i ddarparu adnoddau hanfodol ar gyfer 25 o sesiynau Chai and Chat.
- Cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gefnogi eu Bws Canfod, Profi a Thrin TB, gwasanaeth allgymorth symudol sy'n canolbwyntio ar reoli Twbercwlosis (TB).
- Helpu Cymdeithas Gymunedol BME CNPT i sicrhau £2000 o gyllid grant gan Dîm Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin.
- Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd i gynnal gweithdy adsefydlu cynhwysol i gefnogi ymchwil i sut y gellir gwella mynediad at adsefydlu, sy'n paratoi pobl ar gyfer triniaeth canser.



Rhagnodi Cymdeithasol

Mae'r Gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol yn cysylltu pobl â chymorth anfeddygol, fel gweithgareddau, grwpiau cymunedol a gwasanaethau i'w helpu i wella eu hiechyd a'u llesiant. Drwy gydol y flwyddyn:

- Cynigiwyd 1,582 o apwyntiadau rhagnodi cymdeithasol i unigolion ar draws Clystyrau Afan, y Cymoedd Uchaf a Chastell-nedd.
- Gwnaethom weithio gyda Rheoli Meddyginiaethau i weld sut y gall Presgripsiynu Cymdeithasol gefnogi'r gwaith o reoli'r elfennau seicolegol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â phoen parhaus.

"Mae'r gwasanaeth hwn yn achubiaeth: mae fy nheulu wedi gweld gwahaniaeth enfawr ynof fi."

"Diolch am wrando, gan roi'r dewrder i fi symud ymlaen gyda fy mywyd".

"Doeddwn i ddim yn gwybod ble i droi a doeddwn i erioed wedi clywed am unrhyw un o'r sefydliadau drafodon ni. Rydw i mor ddiolchgar am y gwasanaeth."

Gwasanaeth Llesiant Cymunedol

Trwy ein Gwasanaeth Llesiant Cymunedol, rydym wedi:

- Hwyluso'r broses o ryddhau 257 o gleifion o'r ysbyty yn amserol.
- Mynychu 32 o Wardiau Rhithwir.
- Darparu cymorth llesiant i 145 o unigolion i'w helpu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

"Diolch am y wybodaeth, rwy'n dal i ddefnyddio'r cynllun trafnidiaeth gymunedol, sy'n ddefnyddiol iawn. Mae gwybod y galla' i fynd i apwyntiadau ysbyty yn bwysig i fi gan nad yw fy nheulu bob amser yn gallu mynd â fi yno gan eu bod nhw'n gweithio"

"Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud heb gymorth y gwasanaeth pan oedd fy ngŵr yn sâl gyntaf, fe wnaethon nhw gael gafael ar eitemau anymataliaeth i mi, padiau, cadair a chysylltu â fi'n aml i weld sut oeddwn i, a oedd yn garedig iawn."

IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLESIANT 5

Gwerth Cymdeithasol a'r Ddyletswydd Adran 16 o dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Gwnaethom gyfrannu at yr agenda gwerth cymdeithasol ac ailgydbwyso drwy wneud y canlynol:

- Cefnogi hyrwyddo a thwf mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector o fewn y farchnad gofal cymdeithasol.
- Gweithio ochr yn ochr â phartneriaid i ddeall pa rannau o'r farchnad gofal sy'n cael eu dominyddu gan y sector elw preifat ac sydd angen eu hailgydbwyso, gan helpu i nodi cyfleoedd i ddatblygu modelau darparu gwerth cymdeithasol.
- Cyflwyno a hwyluso trafodaethau ar Werth Cymdeithasol mewn Gweithdy Comisiynu Rhanbarthol i randdeiliaid, gan gynnwys comisiynwyr o Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd.
- Darparu cyngor a gwybodaeth am wasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu gan fentrau cymdeithasol a micro.

Gofalwyr Di-dâl

Fel yr arweinydd rhanbarthol ar gyfer gofalwyr di-dâl, gwnaethom gydweithio â gofalwyr di-dâl ac aelodau o Fwrdd Partneriaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg i wella gwasanaethau a gwella llesiant gofalwyr di-dâl ledled y rhanbarth.

Trwy wrando ar ofalwyr di-dâl a dysgu ganddynt, gwnaethom geisio sicrhau newid cadarnhaol drwy ystod o weithgareddau:

- Cynyddu lleisiau gofalwyr di-dâl drwy gysylltu â gofalwyr di-dâl mewn grwpiau cymunedol, diwrnodau ymgysylltu a digwyddiadau, gan sicrhau bod eu barn yn helpu i lywio cynllunio strategol a thrawsnewid gwasanaethau.
- Datblygu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gofalwyr a ddarparwyd gennym i amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys optometryddion, fferyllwyr a 115 o reolwyr y Bwrdd Iechyd.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynhyrchu dwy ymgyrch radio er mwyn helpu gofalwyr di-dâl i hunan-adnabod ac i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.
- Cynllunio ochr yn ochr â'n partneriaid ddigwyddiad blynyddol i ofalwyr di-dâl lle buom yn ymgysylltu â gofalwyr di-dâl ynghylch eu profiadau o wasanaethau gofal sylfaenol, addysg a chyflogaeth, a seibiant.
- Hwyluso cyfarfodydd Fforwm Cyswllt Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.
- Hyrwyddo rolau cynrychioli gofalwyr a chyfleoedd ar gyfer cydgynhyrchu.

"Doeddwn i ddim yn gwybod fy mod i'n ofalwr di-dâl nes i gydweithiwr sôn am yr hyfforddiant a roddwyd gennych."

Plant a Phobl Ifanc

Gan ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc, gwnaethom:

- Recriwtio cynrychiolwyr o'r trydydd sector i fod yn rhan o'r gweithgorau sy'n gyfrifol am sicrhau bod Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot yn cael ei gyflawni.
- Cyd-gadeirio gweithgor Cynllun Blynyddoedd Cynnar, Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot gyda chyfrifoldeb am gyflawni amcan 4 y cynllun, sef bod plant a phobl ifanc yn cael eu clywed, a'u bod yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu.
- Cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gynllunio ei Uwchgynhadledd Plant a Phobl Ifanc a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn y sector gwirfoddol.
- Cynnal 5 cyfarfod o Fforwm y Sector Gwirfoddol i Blant a Phobl Ifanc.



Astudiaeth Achos



Roedd teulu o bump yn wynebu unigrwydd ac arwahanrwydd ar ôl cael eu hadleoli i gymuned newydd gan y Swyddfa Gartref. Aeth ein Swyddog Allgymorth Cymunedau Amrywiol ati i gefnogi'r teulu drwy eu cysylltu â grwpiau lleol a'u cyflwyno i aelodau'r gymuned, gan ddarparu beiciau i'r teulu i gefnogi gweithgarwch corfforol, creu cysylltiadau teuluol, ac archwilio'r gymuned, a ffôn symudol wedi'i adnewyddu i sicrhau y gallent gysylltu â gwasanaethau lleol a chysylltu mewn argyfwng.

"Mae 'Chai and Chat' yn fy helpu gyda fy iselder a'r straen bob dydd rwy'n ei ddioddef drwy gwrdd â phobl a gwneud ffrindiau newydd."

"Rhoddodd 'Chai and Chat' fywyd newydd i mi. Cyn 'Chai and Chat' doedd gen i ddim syniad ble i fynd, roeddwn i'n anhapus Nawr fy mod i'n mynd i 'Chai and Chat' rwy'n teimlo'n hapus iawn Rwy'n gallu cwrdd â gwahanol bobl ac rwy'n dysgu mwy o bethau, ac mae'n dda i'n Cymuned."



IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLESIANT 5

Gwnaethom weithio gyda phartneriaid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol trwy:

- Hwyluso 4 cyfarfod o'r Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Rhanbarthol mewn partneriaeth â GGC Abertawe a daeth cyfanswm o 148 o aelodau'r rhwydwaith iddo.
- Gweithio gyda Chydweithredwyr Clwstwr Lleol Gofal Sylfaenol i helpu i gynllunio, darparu a chydlynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol.
- Hwyluso cyfarfodydd Cydweithredol Proffesiynol Trydydd Sector CNPT i helpu i wella cyfathrebu rhwng gofal sylfaenol a'r sector gwirfoddol, gan sicrhau bod arbenigedd y sector yn cael ei ddefnyddio i lywio, gosod a chynllunio blaenoriaethau.
- Recriwtio cynrychiolwyr o'r Trydydd Sector i eistedd ar Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac amrywiol Fyrddau a Ffrydiau Gwaith Gorllewin Morgannwg.
- Cefnogi gwaith Llais drwy hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu a mynychu digwyddiadau.
- Cyfrannu at yr archwiliad mewnol o strategaeth poblogaeth y Bwrdd Iechyd.

Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol

Gwnaethom gyfrannu at yr agenda iechyd meddwl a llesiant drwy gefnogi sefydliadau gwirfoddol a gwasanaethau statudol sy'n ymwneud â gwaith iechyd meddwl a thrwy sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl â phrofiad bywyd ddylanwadu ar newid.

Gwnaethom hyn drwy:



- Hwyluso 4 cyfarfod o'r Fforwm Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol.
- Helpu i gynllunio Digwyddiad Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Gorllewin Morgannwg a hwyluso gweithdai profiad bywyd yn y digwyddiad.
- Cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch sefydlu Coleg Adferiad ym Mae Abertawe.
- Cefnogi ymgysylltiad â'r sector gwirfoddol ynghylch datblygu model comisiynu rhanbarthol newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.
- Helpu i sefydlu grŵp cymorth cymheiriaid iechyd meddwl.
- Adnewyddu ein Rhwydwaith Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl i gefnogi pobl sydd â phrofiad bywyd i lywio'r gwaith o gynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau.
- Dod yn Gefnogwr Hapus ac ymuno â'r mudiad i amddiffyn a gwella llesiant pobl yng Nghymru.
- Cefnogi Digwyddiad Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd yn Amgueddfa'r Glannau.
- Cyfrannu at gynnwys Sorted Supported a tidyMinds; gwefannau sy'n cynnwys gwybodaeth am gymorth llesiant emosiynol a meddyliol sydd ar gael ledled Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i oedolion, a phlant a phobl ifanc yn y drefn honno.

GWYBODAETH, CYNGOR A HYFFORDDIANT 6

Gwnaethom sicrhau bod sefydliadau trydydd sector, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a staff cyflogedig yn cael y wybodaeth, y cyngor a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau a chymorth i'w cymunedau, buddiolwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Ein Cyflawniadau

- Cawsom 5,048 o ryngweithiadau unigol.
- Darparwyd cyngor ac arweiniad uniongyrchol i 594 o sefydliadau, a chafodd 92 o sefydliadau fynediad at gyngor ac arweiniad arbenigol.
- Darparwyd 17 o gyrsiau hyfforddi i 148 o gyfranogwyr o grwpiau a sefydliadau lleol.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu


Yn dilyn y penderfyniad a wnaed yn ein cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mis Tachwedd i fabwysiadu'r enw **'Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot'** ymgymerwyd ag ymarfer ail-frandio. Newidiwyd lliw ein logo ac aethpwyd ati i ailgynllunio ein deunyddiau hyrwyddo, ein deunydd ysgrifennu, ein sianeli digidol a decor y swyddfa.

CASTELL-NEDD PORT TALBOT CVS NEATH PORT TALBOT

Gwnaethom barhau i ddarparu ystod eang o wybodaeth drwy ein gwefan, ein cylchlythyrau a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan hysbysu ac ymgysylltu â'r trydydd sector a phartneriaid yng Nghastell-nedd Port Talbot ynghylch yr agenda polisi cymdeithasol a chyhoeddus.

Drwy gydol y flwyddyn:

- Gwnaethom rannu rolau gwirfoddoli, cyfleoedd ariannu, digwyddiadau a gwybodaeth ddefnyddiol arall gyda'r trydydd sector drwy ein e-Gylchlythyr misol.
- Cafodd tudalennau ein gwefan eu gweld gan 3,823 o bobl bob mis ar gyfartaledd.
- Cafodd ein tudalen Facebook dros 100 o ddilynwyr newydd, gan orffen y flwyddyn ariannol ar 2,897.
- Gwnaethom gynyddu nifer ein dilynwyr ar Instagram i dros 800.
- Gwnaethom greu tudalen we Hyfforddiant Craidd newydd, gan ganiatáu i bobl drefnu hyfforddiant ar-lein a symleiddio'r broses er mwyn helpu i gynyddu'r nifer sy'n cyfranogi.



Digwyddiadau

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom drefnu nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus gan gynnwys:

- Digwyddiad codi ymwybyddiaeth ar gyfer Gwobr y Brenin am Wasanaeth Gwirfoddol.
- Digwyddiad Dathlu Gwirfoddoli a welodd dros 40 o unigolion a grwpiau yn cael eu cydnabod am eu gwaith gwirfoddol.
- Digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, lle rhannodd rhestr ysbrydoledig o siaradwyr gwadd eu mewnwelediadau a'u profiadau wrth ysgogi camau gweithredu tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau.
- Sesiwn Friffio Cyllidebau Awdurdodau Lleol ar gyfer y Trydydd Sector.
- Digwyddiad mewn partneriaeth â Sefydliad Cymunedol Cymru er mwyn helpu i ddeall anghenion ein cymunedau ac archwilio ffyrdd o gefnogi sefydliadau ar lawr gwlad yn well yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Amrywiaeth o ddigwyddiadau i hyrwyddo celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gan gynnwys ffair gwybodaeth a gwirfoddoli a 2 gymhorthfa gyllido.
- Digwyddiad rhwydweithio a datblygu mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru.
- Digwyddiad dysgu ac ymgysylltu mewn partneriaeth â Bwrdd Pontio Tata Steel ac undeb Community.
- 2 ddiwrnod o hwyl iechyd a llesiant er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r ystod o wasanaethau a gweithgareddau llesiant sydd ar gael.
- 11 sesiwn 'Cwrdd â'r Cyllidwr' a 2 ffair gyllido a oedd yn rhoi cyfle i sefydliadau gwirfoddol gwrdd ag amrywiaeth o gyllidwyr.

"Roedd y digwyddiad yn wych, roedd rhywbeth at ddant pawb yno, fe wnes i fwynhau yn fawr iawn."
Rhywun a oedd yn y Diwrnod Hwyl Iechyd a Llesiant





YR HYN Y DYWEDODD POBL RYDYM WEDI GWEITHIO Â NHW:

"Rwy'n ddiolchgar iawn am y cymorth a'r gefnogaeth gan GGCCNPT... rwy'n credu bod GGCCNPT yn wasanaeth hanfodol i hwyluso a gwella gwirfoddoli ar draws y rhanbarth."

Dan Egan, Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot.

"Heb eich help chi, fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hyn. Diolch, rydych chi'n gwneud gwaith gwych!"

Adborth gan wirfoddolwr.

"Diolch yn fawr iawn am eich help. Mae'n fwy na'r hyn y gofynnais amdano ac mae'n gyngor gwych."

Adborth gan wirfoddolwr.

"Mae'r arweiniad gan GGCCNPT bob amser yn addysgiadol ac yn gefnogol. Mae wedi sicrhau y gallwn ni gefnogi'r gwirfoddolwyr anhygoel hyd eithaf ein gallu ac yn y ffordd y maen nhw wir yn ei haeddu."

Louise Griffiths, Awel Aman Tawe.

"Diolch yn fawr iawn i chi am eich cymorth ac am eich agwedd gynnes a chyfeillgar tuag ataf ym mhob un o'n cyfarfodydd."

Adborth gan un o drigolion Castell-nedd Port Talbot sy'n cael cymorth.

"Rydw i wedi trysori pob eiliad o weithio gyda GGC Castell-nedd Port Talbot. Mae ein perthynas wedi para blynyddoedd lawer, ac mae eich sefydliad yn enghraifft dda o wneud gwahaniaeth bob dydd i fywydau'r rhai mwyaf agored i niwed."

Adborth gan sefydliad partner.

"Cwrs ardderchog, roedd y wybodaeth i gyd yn ddefnyddiol iawn. Fel rhywun sydd heb brofiad o ysgrifennu/cyllido grantiau, mae wedi ei gwneud yn llai brawychus."

Adborth gan gyfranogwr hyfforddiant.

"Darparodd GGCCNPT arweiniad a chymorth rhagorol wrth ddatblygu ein llwyfannau recriwtio gwirfoddolwyr ar-lein."

Age Connects Castell-nedd Port Talbot.


Maker


BE HAPPY
LOVE
LAUGH




Sorted
Supported
tidyMinds
.org.uk





YMDDIRIEDOLWYR A GWEINYDDWYR YR ELUSEN

Bwrdd Ymddiriedolwyr GGC Castell-nedd Port Talbot 2024-2025

Barbara Cole	Eglwys Sant Catwg
Amanda Ellis	View (Glynneath) Limited
Louise Fleet CStJ YH (ymddiswyddodd ym mis Rhagfyr 2024)	Cymorth i Fenywod Thrive
Hugh James	Plwyf Llansawel
Lorraine Miles	Shopmobility Castell-nedd Port Talbot
Saifur Rahaman	Cymdeithas Gymunedol BME Castell-nedd Port Talbot
Dr Edward M Roberts MBE DL CStJ FRCGP (Cadeirydd)	Marauders Men's Health
Lesley Smith	VIEW (DOVE) Limited
Linda Whittaker (Is-gadeirydd)	Tai Tarian
Aelodau Cyfetholedig	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - gwag
Trysorydd	John Flynn
Archwilwyr	Bevan Buckland LLP Tŷ Aberteifi Llys y Castell Parc Menter Abertawe Abertawe SA7 9LA
Bancwyr	Lloyds Bank
Ysgrifennydd y Cwmni	Gaynor M Richards MBE DL LLD (Anrh)

DATGANIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU GWASANAETH GWIRFODDOL CYMUNEDOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT CYF

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot Cyfyngedig (y 'cwmni elusennol') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2025 sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lif Arian a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon'.

Barn ar y datganiadau ariannol cryno:

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â datganiadau ariannol blynyddol llawn Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2025.

Nid ydym wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad y gwnaethom lofnodi ein hadroddiad ar y datganiadau ariannol blynyddol llawn, a dyddiad yr adroddiad hwn.

Cyfrifoldebau priodol y bwrdd a'r archwilydd

Mae'r bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad blynyddol cryno yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig.

Ein cyfrifoldeb yw adrodd ein barn i chi ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno yn erbyn y datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau sylweddol yn y datganiadau ariannol cryno.

Fe wnaethom gynnal ein gwaith yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn y cwmni elusennol yn disgrifio sail ein barn ar y datganiadau ariannol hynny ac ar Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Alison Vickers (Uwch Archwilydd Statudol)

I ac ar ran Bevan Buckland LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Abertawe SA7 9LA

CYNGOR GWASANAETH GWIRFODDOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT CYF

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL (SY'N YMGORFFORI CYFRIF INCWM A GWARIANT) AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31ain MAWRTH 2025 (Rhif Cwmni. 03341466)

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm y Cronfeydd 2025 £	Cyfanswm y Cronfeydd 2024 £
INCWM A GWADDOLION O				
	368,381	1,272,103	1,640,484	1,886,510
Gweithgareddau elusennol				
Gweithgareddau masnachu arall	27,212	-	27,212	8,057
Incwm Buddsoddi	44,825	-	44,825	32,146
Cyfanswm	440,418	1,272,103	1,712,521	1,926,713
GWARIANT AR				
Gweithgareddau elusennol	403,282	1,348,806	1,752,088	2,086,965
Cyfanswm	403,282	1,348,806	1,752,088	2,086,965
INCWM/GWARIANT NET	37,136	(76,703)	(39,567)	(160,252)
TROSGLWYDDIADAU RHWNG CRONFEYDD	-	-	-	-
ENILLION/(COLLEDION) CYDNABYDDEDIG ERAILL:				
ar ailbrisio eiddo buddsoddi	-	-	-	-
SYMUDIAD NET YN Y CRONFEYDD	37,136	(76,703)	(39,567)	(160,252)
CYSONI CRONFEYDD Cyfanswm yr arian a ddygwyd ymlaen	1,328,782	493,257	1,822,039	1,982,291
CYFANSWM YR ARIAN A GARIWYD YMLAEN	1,365,918	416,554	1,782,472	1,822,039

GWEITHREDIADAU PARHAUS
Mae'r holl incwm a gwariant wedi deillio o weithgareddau parhaus

CYNGOR GWASANAETH GWIRFODDOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT CYF

DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL AR 31ain MAWRTH 2025
(Rhif Cwmni. 03341466)

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	2025 £	2024 £
ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL				
Eiddo, peiriannau ac offer	21,851	341,888	363,739	384,494
Eiddo buddsoddi	120,000	-	120,000	120,000
	141,851	341,888	483,739	504,494
ASEDAU CYFREDOL				
Dyledwyr	43,838	18,578	62,416	246,078
Buddsoddiadau	101,764	-	101,764	-
Arian parod ac arian cyfatebol	1,146,444	87,933	1,234,377	1,257,545
	1,332,850	170,773	1,503,623	1,503,623
YMRWYMIADAU CYFREDOL	(67,979)	(31,845)	(99,824)	(186,078)
ASEDAU CYFREDOL NET	1,224,067	74,666	1,298,733	1,317,545
CYFANSWM YR ASEDAU LLAI YMRWYMIADAU CYFREDOL	1,365,918	416,554	1,782,472	1,822,039
ASEDAU NET	1,365,918	416,554	1,782,472	1,822,039
CRONFEYDD				
Cronfeydd anghyfyngedig	1,365,918	-	1,365,918	1,328,782
Cronfeydd cyfyngedig	-	416,554	416,554	493,257
CYFANSWM CRONFEYDD	1,365,918	416,554	1,782,472	1,822,039

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31ain MAWRTH 2025

SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

	At 01.04.24	Symudiad net mewn cronfeydd wrth gefn	At 31.03.25
Cronfeydd anghyfyngedig			
Cronfeydd anghyfyngedig	23,667	(6,600)	17,067
Cronfeydd dynodedig	1,161,500	45,500	1,207,000
Cronfeydd cyfalaf dynodedig	23,615	(1,764)	21,851
Cronfeydd cyfalaf dynodedig eiddo buddsoddi	120,000	- 0	120,000
	1,328,782	37,136	1,365,918
Cronfeydd cyfyngedig			
Cronfeydd cyfyngedig	132,378	(57,712)	74,666
Cronfeydd cyfalaf cyfyngedig	360,879	(18,991)	341,888
	493,257	(76,703)	416,554
	1,822,039	(39,567)	1,782,472

Cronfeydd dynodedig sy'n cynrychioli:	**£**
Costau hanfodol	370,000
Cynnal gweithgareddau craidd a datblygiad staff	647,000
Cronfa wrth gefn offer TGCh	15,000
Prif Atgyweiriadau	125,000
Benthyciadau brys	50,000
	1,207,000
Gwariant Cyfalaf Dynodedig	141,851
	1,348,851

Mae costau hanfodol yn cynrychioli cynllunio wrth gefn ar gyfer y costau hanfodol i gefnogi amcanion tymor canolig yr elusen.

Mae'r elusen wedi dynodi o leiaf bedwar mis o gostau cynnal.

Mae'r cronfeydd dynodedig eraill yn cynrychioli gwariant wedi'i gynllunio a fydd yn cael ei dalu yn y tymor canolig.

Mae balans cronfa gyfalaf cyfyngedig o £341,888 (2024 - £360,879) yn cynrychioli gwerth llyfr net yr adeiladau a'r offer sydd wedi'u prynu drwy grant cyfyngedig. Mae'r trosglwyddiad allan o'r gronfa hon yn cynrychioli'r dibrisiant ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r gronfa Gwariant Cyfalaf Dynodedig yn adlewyrchu gwerth arian a wariwyd ar yr asedau diriaethol nad ydynt wedi'u hariannu allan o incwm grant. Mae'r balans hwn yn cynrychioli gwariant allan o'r cronfeydd cyffredinol.

Cronfeydd anghyfyngedig - mae'r gronfa hon yn cynrychioli cronfeydd cyffredinol anghyfyngedig o'r elusen sydd ar gael i'w gwario at unrhyw un o ddibenion yr elusen. Trosglwyddiadau i'r gronfa ac o'r gronfa hon yw'r cofnodion cydbwyso ar gyfer y trosglwyddiadau a nodwyd uchod o fewn cronfeydd dynodedig a chyfyngedig


Funded by
UK Government
MAERDY YOUTH
presents:
YOUTHFEST
Canolfan Maerdy
featuring:
FRESH
SCIENCE
DISCO
DJ
Sat 22nd
June
12 - 6PM
CWMGORS RUGBY CLUB
Celebrating Youth in the
Upper Amman Valley
OMG!


HYFFORDDWR
TRAINER







